

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

British Pregnancy Advisory
Service (BPAS), Uned y Gogarth,
Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 02 Chwefror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 03 Mai 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	Error! Bookmark not defined.
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	Error! Bookmark not defined.
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	20
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o British Pregnancy Advisory Service (BPAS), Uned y Gogarth, Llandudno.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod gan y clinig drefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Fodd bynnag, canfuom ychydig o dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yr amgylchedd a chyfleusterau
- Gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Atal a rheoli heintiau
- Trosolwg rheoli
- Archwilio ac adrodd
- Cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant staff

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Argaeledd gwybodaeth yn Gymraeg
- Archwilio delweddau sonograffeg¹
- Cysondeb a manylder rhai cofnodion clinigol
- Hysbysu hebryngwyr

¹Sonograffeg, a elwir hefyd yn uwchsain, yw'r defnydd o donnau sain amledd uchel i asesu organau a strwythurau o fewn y corff i gynorthwyo gyda sgrinio a gwneud diagnosis o ystod eang o gyflyrau.

- Gwely archwilio

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn a oedd yn gofyn am gamau unioni ar unwaith.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae British Pregnancy Advisory Service (BPAS), Llandudno wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 16 Medi 2020. Darperir gwasanaethau yn Uned y Gogarth, Ysbyty Llandudno, Ffordd yr Ysbyty, Llandudno, Conwy, LL30 1LB.

Mae BPAS yn elusen sy'n darparu cymorth, cwnsela a gofal i fenywod sy'n wynebu triniaeth terfynu beichiogrwydd am lawer o wahanol resymau. Cynigir sterileiddio gwrywaidd nad yw'n defnyddio sgalpel (fasdoriad) hefyd. Mae hefyd yn darparu cyngor a chymorth ar atal cenhedlu. Hon yw prif elusen gofal terfynu beichiogrwydd y DU, yn arbenigo mewn triniaeth ddiogel a chyfrinachol. Maent yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae'r clinig yn cael ei arwain gan nyrsys/bydwragedd ac mae ar agor o 9.00am tan 2.30pm ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau bob wythnos ac mae'n cyflogi tîm o staff amlddisgyblaethol sy'n cynnwys nyrsys, bydwragedd a staff gweinyddol. Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Triniaeth terfynu beichiogrwydd (gan gynnwys ymgynghoriad ac asesiad) ar gyfer cleifion 13 (tair ar ddeg) oed a throsodd
- Ymgynghoriad fasdoriad, fasdoriad nad yw'n defnyddio sgalpel a dilyniant (gan gynnwys dadansoddi semen) ar gyfer cleifion 18 (deunaw) oed a throsodd.
- Erthyliad meddygol cynnar ar gyfer beichiogrwydd hyd at 10 (deg) wythnos o feichiogrwydd
- Allsugnad â llaw o dan dawelydd ymwybodol dewisol ochr yn ochr ag anesthesia ceg y groth lleol ar gyfer beichiogrwydd hyd at 14 (pedair ar ddeg) wythnos o feichiogrwydd.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig erthyliad meddygol cynnar² telefeddygaeth, lle mae meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu drwy'r post i gleifion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer triniaeth.

Mae gwasanaeth trefnu apwyntiadau canolog, yn ogystal ag ystod o swyddogaethau cymorth wedi'u lleoli ym mhrif swyddfa BPAS sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gleifion.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Darparodd cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Gwelsom fod staff y clinig yn trin cleifion â chwarteisi a pharch. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau hefyd ar waith i gleifion roi eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein a rhai papur i gael barn cleifion ar y gwasanaeth a gynigir yn y clinig a sut y gellid ei wella. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 12 o ymatebion ar-lein. Roedd cleifion yn gyffredinol hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Dw i ddim yn meddwl bod angen ei wella, roedd y staff yn anhygoel.”

“Dim byd, roedd popeth yn berffaith.”

“Fedra i ddim beio'r gwasanaeth dw i wedi'i dderbyn, maen nhw wedi bod yn hyfryd o'r dechrau i'r diwedd.”

² Mae erthyliad telefeddygaeth yn cyfuno erthyliad â meddyginiaeth-sy'n defnyddio tabledi i ddod â beichiogrwydd i ben-a thelefeddygaeth-sy'n caniatáu i ddarparwyr iechyd oruchwylio'r defnydd o dabledi erthyliad trwy fideo-gynadledda neu ymgynghoriadau ffôn.

Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion am sut y gallant gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd taflenni yn ymwneud â gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael i bawb yn yr ystafell aros. Mae gan y gwasanaeth hefyd wefan gynhwysfawr sy'n manylu ar y gwasanaethau a gynigir yng nghlinig Llandudno a'r rhai a gynigir gan y sefydliad ar safleoedd eraill.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael hefyd yn ymwneud â cham-esgor, atal cenhedlu, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, cwnsela a cham-drin domestig.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o wybodaeth am COVID-19, ar ffurf poster, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Urddas a pharch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas cleifion a gwelsom staff yn ymgysylltu â chleifion mewn modd parchus a phroffesiynol yn ystod sgysiau ffôn ac wyneb yn wyneb.

Gwelsom y staff yn croesawu cleifion mewn modd cyfeillgar ac yn siarad â nhw'n gwrtais. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn garedig wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y clinig.

Dywedodd yr holl ymatebwyr fod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn gallu siarad â'r staff am y weithdrefn neu'r driniaeth heb i bobl eraill eu clywed.

Gwelsom fod drysau ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd llenni tafladwy yn cael eu darparu o amgylch gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn derbyn triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd ar gael.

Roedd yr unigolion cofrestredig wedi cynhyrchu datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y rhain yn nodi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth.

Roedd cleifion â phroblemau synhwyraidd neu anghenion ychwanegol/anawsterau gwybyddol yn cael cynnig gwybodaeth wedi'i haddasu i'w hanghenion penodol h.y. Braille, print bras neu wybodaeth ddarluniadol. Gallai'r gwasanaeth hefyd gyrchu gwasanaethau cyfieithu allanol.

Mae cael cydsyniad gan gleifion sy'n derbyn triniaethau yn rhan allweddol o'r broses. Gwnaethom drafod hyn â'r staff a chawsom ein sicrhau gan eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydsyniad a'r materion moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud â rhai o'r gwasanaethau a gynigir yn y clinig. Daethom i'r casgliad bod eu gwybodaeth am y pwnc hwn yn ddigon trylwyr i sicrhau y byddent yn gwneud eu gorau glas i drin y broses hon mor sensitif a gofalus â phosibl, gan sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chleifion, ym mhob ymgynghoriad, i gadarnhau eu bod yn parhau i gydsynio i driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd y trafodaethau hyn bob amser yn cael eu cofnodi'n fanwl yn nodiadau gofal cleifion.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u gofal, i'r graddau yr oeddent yn dymuno hynny. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Mae staff yr adran yn barchus iawn ac yn llawn empathi. Fe wnaethon nhw wneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn.”

Dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth sydd ar gael a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision eu hopsiynau triniaeth.

Dywedodd saith o'r ymatebwyr fod cost y driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Dywedodd pump nad oedd hyn yn berthnasol.

Dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol neu wedi cael eu hanes meddygol wedi'i wirio cyn ymgymryd ag

unrhyw driniaeth a'u bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

“Mae'r gwasanaeth wedi bod yn brydlon ac mae'r staff wedi rhoi opsiynau i mi ac wedi sicrhau fy mod i (yn deall) yr ôl-ofal a gynigir.”

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trafodaethau â chleifion ynglŷn â chydysnio i gael triniaeth yn cael eu cofnodi'n fanwl yn y nodiadau gofal.

Cyfathrebu'n effeithiol

Fel y soniwyd eisoes, roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth, ar ffurf taflen ac ar y wefan, yn uniaith Saesneg. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud ymdrechion pellach i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Roedd dolen sain ar gael yn y dderbynfa i gynorthwyo'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â staff yn y clinig.

Gwelsom fod arwyddion addas wedi'u harddangos i gynorthwyo cleifion i ganfod eu ffordd o amgylch y clinig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig wneud ymdrechion pellach i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben.

Mae system ganolog ar waith i drefnu apwyntiad gyda'r rhan fwyaf o driniaethau'n cael eu hariannu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Disgwylir i gleifion gwblhau ffurflen hunanasesu yn manylu ar hanes meddygol y gorffennol. Yna datblygir cynllun triniaeth yn unol â dymuniadau'r claf ac mewn ymgynghoriad â'r staff clinigol perthnasol.

Gwelsom fod trefniadau tu allan i oriau, apwyntiadau dilynol a chwmsela digonol ar waith, a bod cleifion yn gallu ffonio'r rhif ffôn canolog i gael cymorth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion a'r wybodaeth a bostiwyd ar wefan y clinig, yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyladwy i hawliau cleifion.

Roedd lleoedd parcio i'r anabl ar gael ym maes parcio'r ysbyty, a mynediad gwastad da i'r clinig sydd ar lawr daear yr ysbyty.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyrchu'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Ni ddywedodd yr un o'r cleifion eu bod wedi wynebu achos o wahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y cleifion yn cael cyfleoedd i roi sylwadau ar eu profiadau o ymweld â'r clinig, gyda holiaduron ar gael yn dilyn ymgynghoriad neu driniaeth i roi adborth yn barhaus. Roedd yn amlwg bod y tîm staff wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion a bod camau wedi'u cymryd o ganlyniad er mwyn gwneud gwelliannau lle'r oedd hynny'n briodol.

Gwnaethom drafod y posibilrwydd o arddangos canlyniadau adborth cleifion yn y man aros i gleifion eu gweld. Byddai hyn yn dangos i gleifion fod y gwasanaeth wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'w safbwyntiau ac y byddant yn cymryd camau priodol, lle bo angen, wrth ymateb.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig arddangos canlyniadau adborth cleifion yn y man aros i gleifion eu gweld.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y tîm o staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod gan y clinig drefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion, ymwelwyr a staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth da ar waith ar y cyfan a phrosesau effeithiol ar gyfer gwirio'r offer a ddefnyddiwyd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Roedd asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan yr ysbyty a rheolwyr BPAS.

Roedd asesiadau risg clinigol penodol yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses asesu cleifion.

Gwelsom fod gel alcohol yn cael ei storio ar silffoedd agored mewn storfa heb ei chloi. Daethom â hyn at sylw'r rheolwr cofrestredig, a ddywedodd wrthym y byddai camau'n cael eu cymryd i storio'r gel mewn cwpwrdd dan glo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gel alcohol yn cael ei storio'n ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Atal a rheoli heintiau a dadhalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i helpu i arwain staff ar atal a rheoli heintiau i gynnwys rheoli COVID-19. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar y pwnc hwn.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol i helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo ar gael. Mae ymolchi dwylo'n effeithiol yn bwysig i hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau. Roedd rotâu glanhau wedi'u harddangos yn y clinig ynghyd â chanlyniadau archwiliadau rheoli heintiau.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym fod y clinig yn lân iawn a bod gwybodaeth am reoli COVID-19 i'w gweld.

Roedd yr offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod archwiliadau a thriniaethau at ddefnydd cleifion unigol yn unig. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn rhaid diheintio offer ac felly roedd yn hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Gwelsom fod offer miniog meddygol (fel nodwyddau) wedi'u gosod mewn cynwysyddion priodol er mwyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (i staff a chleifion) a chroes-heintio o offer miniog sydd wedi'u defnyddio.

Cawsom ein hysbysu na chynhyrchwyd unrhyw wastraff meinwe dynol yn BPAS Llandudno, oherwydd y cyfnod rhwng cymryd y feddyginiaeth terfynu a dechrau'r symptomau ac, yn fwy diweddar, defnyddio telefeddygaeth gartref i roi'r feddyginiaeth. Fodd bynnag, mae gan BPAS bolisi sefydliadol ar waith ynglŷn â rheoli gwastraff clinigol sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd mewn clinigau BPAS lle y ceir gwared ar feinwe dynol (unedau llawfeddygol).

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod prosesau rheoli meddyginiaeth cadarn ar waith yn y clinig.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel. Roedd cofnodion cywir yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau a roddwyd i gleifion. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod cleifion wedi cael eu holi am unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'u gofal a'u triniaeth.

Gwelsom fod tymereddau oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu monitro bob dydd a bod y rhain o fewn terfynau derbyniol. Fodd bynnag, nid oedd y staff a oedd yn cynnal y gwiriadau tymheredd yn llofnodi'r cofnod.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn llofnodi'r llyfr cofnodion/taflen gofnodion ar ôl cynnal gwiriadau tymheredd yr oergell.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod prosesau diogelu cadarn ar waith a bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran rheoli materion diogelu.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i arwain staff ar y camau i'w cymryd pe baent yn amau bod plant neu oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sy'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd staff sy'n gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau. Roedd gan y sefydliad bwyllgor diogelu sy'n goruchwylio'r gwaith o reoli atgyfeiriadau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd ystod o offer ar gael yn y clinig i gefnogi darpariaeth y gofal a'r driniaeth i gleifion. Gwelsom dystiolaeth fod yr offer hwn yn cael ei brofi/calibradu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn darparu darlleniadau cywir.

Fodd bynnag, roedd y peiriant sonograffeg yn hen ac wedi dyddio. Dywedwyd wrthym y byddai peiriant newydd ar gael yn y dyfodol agos iawn.

Nid oedd y gwely archwilio yn yr ystafell sonograffeg yn addas ar gyfer cleifion mwy o ran maint neu sydd dros eu pwysau ac roedd wedi'i osod mewn modd a oedd yn ei gwneud yn anodd i staff osod cleifion yn gywir ac yn ddiogel ar gyfer archwiliadau.

Roedd offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewygu) ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant dadebru addas.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwely archwilio yn yr ystafell sonograffeg yn addas i'w ddefnyddio gan gleifion mwy o ran maint neu gleifion sydd dros eu pwysau a'i fod wedi'i osod yn y fath fodd fel bod staff yn gallu gosod cleifion yn gywir ac yn ddiogel.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff.

O'n trafodaethau gyda'r staff, a thrwy archwilio dogfennau gofal cleifion, canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i helpu i gynnal y clinig. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod staff clinigol yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion meddygol cleifion a chanfod eu bod yn drefnus a darllenadwy yn gyffredinol. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac roedd trefniadau wrth gefn ar waith pe byddai'r system neu'r cyfrifiadur yn methu.

Roedd y cofnodion a adolygwyd yn cynnwys manylion y clinigwr a oedd yn gwneud y cofnod ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddwyd i bob claf. Fodd bynnag, canfuom fod diffyg manylion yn rhai o'r cofnodion ynglŷn â'r opsiynau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad ac unrhyw farn a fynegwyd gan gleifion ar y pryd. Yn ogystal, canfuom nad oedd staff yn cofnodi manylion archwiliad o ardal y rhithbilennau yn gywir ac yn gyson³ yn yr adran adroddiadau uwchsain.

Canfuom hefyd nad oedd crynodebau delwedd bob amser yn cael eu cofnodi i gefnogi canfyddiadau sonograffeg ac nad oedd delweddau bob amser yn cael eu marcio i ddynodi pa ochr o'r claf yr oeddent yn perthyn iddi h.y. chwith neu dde. Yn ogystal, canfuom nad oedd delweddau sonograffeg yn cael eu harchwilio i sicrhau ansawdd.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael cynnig hebryngwr yn ystod ymgynghoriadau, archwiliadau a thriniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bosteri i'w gweld yn y clinig i hysbysu cleifion o hyn. Yn ogystal, nid oedd y cynnig

³ Mae'r rhithbilennau, neu'r adnexa uteri, ac a elwir hefyd yn atodiadau'r groth, yn derm cyfunol am yr ofariau, y tiwbiau ffalopaidd a'r gewynnau llydan.

o hebryngwr, a phenderfyniad y claf i dderbyn neu wrthod y cynnig, bob amser yn cael eu cofnodi mewn nodiadau gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod staff yn cofnodi manylion yr opsiynau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad a safbwyntiau'r claf yn gywir ac yn gyson
- Rhaid i staff gofnodi manylion yr archwiliad o ardal y rhithbilennau yn yr adran adroddiad uwchsain yn gywir ac yn gyson
- Bod staff yn cofnodi crynodebau delwedd yn gywir ac yn gyson i gefnogi canfyddiadau sonograffeg
- Bod delweddau sonograffeg wedi'u marcio i ddynodi pa ochr i'r claf yr oeddent yn perthyn iddi
- Bod delweddau sonograffeg yn cael eu harchwilio i sicrhau ansawdd
- Bod posterï'n cael eu harddangos yn y clinig i hysbysu cleifion o'u hawl i gael hebryngwr
- Bod y cynnig o hebryngwr, a phenderfyniad y claf i dderbyn neu wrthod y cynnig, bob amser yn cael eu cofnodi mewn nodiadau gofal.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Trwy archwilio cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn defnyddio system gyfathrebu electronig o bell, a oedd yn galluogi staff clinigol i gyrchu gwybodaeth a chanlyniadau cleifion oddi ar y safle mewn modd diogel. Golygai hyn bod staff clinigol yn gallu dehongli gwybodaeth yn gyflym a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth heb fod yn bresennol yn gorfforol. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi arwain at staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar y safle hyd yn oed pan nad oedd uwch-staff clinigol yn bresennol yn gorfforol. Mae hefyd yn golygu y gellir cael mynediad amserol at benderfyniadau sydd angen eu hawdurdodi gan ddau feddyg.

Rheoli cofnodion

Gwelsom systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am gleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel yn electronig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Iechyd a Gofal a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn y clinig gyda'r staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y cymorth a gawsant gan y rheolwr cofrestredig a'r sefydliad ehangach.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod yno ddiwylliant agored a chefnogol. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o strwythur yr uwch-reolwyr o fewn y sefydliad, a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a dywedwyd wrthym eu bod yn cael mynediad at yr hyfforddiant a'r arweiniad yr oedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y cymorth a gynigiwyd i staff ac argaeledd y rheolwr cofrestredig, a rheolwyr eraill yn y sefydliad ehangach, yn gadarnhaol.

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod ffocws ar wella gwasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, trwy raglen dreigl o archwilio a'i strwythur llywodraethu sefydledig a alluogodd aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau gyda'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau goruchwyllo a chefnogi staff anffurfiol o ddydd i ddydd ar waith. Cadarnhaodd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith gan eu rheolwr a'u cydweithwyr.

Gwelsom fod cysylltiadau da â rheolwyr mewn lleoliadau eraill a weithredir gan BPAS, gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn rhannu gwybodaeth am unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg a rhybuddion diogelwch ac ati.

Dywedwyd wrthym fod aelodau o uwch dîm reoli BPAS yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd fel rhan o'u cyfrifoldebau llywodraethu. Cyflwynwyd adroddiadau archwilio misol i fwrdd rheoli'r clinig.

Roedd cofnodion yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol, neu ei gynrychiolydd enwebedig, yn ymweld â'r clinig o leiaf bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau. Pwrpas yr ymweliadau hyn yw ystyried gwahanol agweddau yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Roeddem yn fodlon ar lefel yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan aelodau'r uwch-dîm reoli a'r bwrdd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael ac roedd manylion ynglŷn â sut y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Mae'r rhain yn nodi'n glir yr amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC hefyd wedi'u cynnwys.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau arwyddocaol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r rhain i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion. Adroddwyd yn ffurfiol am ddigwyddiadau sylweddol trwy system Datix⁴.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar adeg ein harolygiad, roedd tîm bach yn cynnwys y rheolwr cofrestredig, dwy nyrs/bydwraig a derbynydd/gweinyddwr yn cael eu cyflogi yn y clinig.

⁴ Mae Datix yn feddalwedd diogelwch cleifion ar gyfer adrodd digwyddiadau a rheoli risg ar y we ar gyfer sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd gwasanaethau meddygol/ymgyngorol ar gael os oedd angen. Darparwyd y rhain gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol (gyda breintiau ymarfer⁵), mewn clinigau BPAS cyfagos yn Lloegr.

Roedd gwybodaeth yn y ffeiliau staff a archwiliwyd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Gwelsom fod y staff wedi derbyn gwerthusiad o'u perfformiad gwaith o fewn y 12 mis diwethaf

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff a chanfod bod y clinig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd.

Roedd gan bob aelod o staff dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

⁵ Mae caniatáu breintiau ymarfer yn broses hen sefydledig o fewn gofal iechyd annibynnol sy'n rhoi'r caniatâd i ymarferydd meddygol weithio mewn ysbyty neu glinig annibynnol, mewn practis preifat annibynnol, neu o fewn y ddarpariaeth o wasanaethau cymunedol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer y Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n briodol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: BPAS, Uned y Gogarth, Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 2 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trafodaethau â chleifion ynglŷn â chydsynio i gael triniaeth yn cael eu cofnodi'n fanwl yn y nodiadau gofal.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 40. (2) 9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad	Rhoddir cydsyniad llawn yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cael ei ailystyried pan fydd y cleient yn mynychu'r uned, fodd bynnag, byddwn yn safoni'r hyn y mae ein clinigwyr yn ei ddogfennu i ddangos bod cydsyniad wedi cael ei ailystyried. Mae hyn wedi'i roi ar waith yn lleol eisoes.	Rheolwr Uned Triniaeth	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau ac yn cael ei roi ar waith yn yr uned.
Dylai'r darparwr cofrestredig wneud ymdrechion pellach i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Mae BPAS ar hyn o bryd yn y broses o gynhyrchu posteri a gwybodaeth i'w cyhoeddi yn Gymraeg a'u harddangos yn yr uned, yn unol â'r ddogfen sydd ynghlwm. Mae gan BPAS hefyd wefan y gall unrhyw gleient gael mynediad iddi y	Rheolwr Uned Triniaeth Metron Ansawdd	30/06/2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gellir ei chyfieithu'n llawn, gan gynnwys holl lenyddiaeth cleientiaid.		
Dylai'r darparwr cofrestredig arddangos canlyniadau adborth cleifion yn y man aros er mwyn i gleifion eu gweld.	Safon 5. Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth	Mae hysbyswrdd 'Dywedoch Chi Gwnaethom Ni' ar gyfer yr ystafell aros wedi ei osod yn yr uned. Mae'r sefydliad ar hyn o bryd yn treialu byrddau Gwella Ansawdd a Pherfformiad. Offeryn gweledol yw hwn sy'n ymgysylltu â'r gymuned glinigol rheng flaen i wneud gwelliannau o ansawdd yn eu meysydd. Penderfynir ar ddangosyddion perfformiad allweddol, a bydd methodolegau gwella ansawdd yn cael eu haddysgu i staff megis cylchoedd Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu, a diagramau esgryn pysgod. Bydd gan y bwrdd hwn adran 'Dywedoch Chi Gwnaethom Ni' fel ffordd o weithredu ar adborth cleientiaid a gwneud newidiadau ar lefel yr uned.	Rheolwr Uned Triniaeth Metron Ansawdd	30/06/2022

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol		Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gel alcohol yn cael ei storio'n ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (1) (b) Safon 22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae clo bellach wedi'i osod ar y cwpwrdd storio a ddefnyddir i storio gel alcohol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	Rheolwr Triniaeth	Uned	Cwblhawyd y cam gweithredu hwn ar 21/02/2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn llofnodi'r llyfr cofnodion/taflen gofnodion ar ôl cynnal gwiriadau tymheredd yr oergell.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (5) (a) Safon 15. Rheoli meddyginiaethau	Mae'r daflen gofnodi a ddefnyddiwyd i gofnodi gwiriadau tymheredd oergell dyddiol bellach yn cynnwys adran llofnodi.	Rheolwr Triniaeth Bydwraig Arweiniol	Uned	Cwblhawyd y cam gweithredu hwn ar 07/02/2022
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwely archwilio yn yr ystafell sonograffeg yn addas i'w ddefnyddio gan gleifion mwy o ran maint neu gleifion sydd dros eu pwysau a'i fod	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (2)	Mae gwely newydd bellach wedi'i archebu a bydd yn cael ei ailosod fel yr argymhellir.	Rheolwr Ansawdd Gweithredol		09/05/2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
wedi'i osod yn y fath fodd fel bod staff yn gallu gosod cleifion yn gywir ac yn ddiogel.	Safon 16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi manylion yr opsiynau a drafodwyd yn yr ymgynghoriad a safbwyntiau'r claf yn gywir ac yn gyson.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23. (1) (a) a (b) Safon 7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Trafodir opsiynau triniaeth gyda phob cleient yn eu hymgyngoriad a'u cofnodi ar ein system cofnodion cleientiaid electronig. Rhoddwyd archwiliadau newydd ers mis Ionawr 2022, ledled y sefydliad sy'n sicrhau bod yr holl opsiynau triniaeth, sy'n berthnasol i gyfnod beichiogrwydd cleientiaid, yn cael eu cofnodi fel y trafodwyd. Mae'r canlyniadau archwilio hyn yn cael eu bwydo'n ôl yn rheolaidd i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Bydwraig Arweiniol	Mae'r cam hwn wedi'i gwblhau a chaiff ei archwilio'n fisol i sicrhau cydymffurfiaeth.
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi manylion yr archwiliad o'r ardal rhithbilennol yn yr adran adroddiad uwchsain yn gywir ac yn gyson.		Mae BPAS wrthi'n cyflwyno model croesiad sy'n cynnwys dwy agwedd. Yr agwedd gyntaf yw trosglwyddo mwyafrif helaeth ein sganiau uwchsain yn allanol i ddarparwr trydydd parti (Ultrasound	Sonograffydd Arweiniol	Bydd y broses o gyflwyno hyn yn genedlaethol

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi crynodebau delweddau yn gywir ac yn gyson i gefnogi canfyddiadau sonograffeg.</p>		<p>Direct USD) a'r ail agwedd yw cryfhau'r gwasanaeth uwchsain mewnol o fewn BPAS. Mae'r bartneriaeth newydd hon gydag USD yn galluogi cleientiaid BPAS i gael mynediad at wasanaeth uwchsain lle cânt eu sganio gan ymarferwyr sydd naill ai'n meddu ar ddiploma ôl-raddedig neu dystysgrif ôl-raddedig mewn Uwchsain Meddygol. Mae hyn yn golygu, ar gyfer y mwyafrif helaeth o gleientiaid BPAS, y bydd yr holl bryderon uchod a godwyd gan arolygiad AGIC yn cael eu dileu. Mae delweddau uwchsain a gynhyrchir gan USD yn cael eu hanfon i BPAS yn electronig. Mae USD yn archwilio 5% o'r holl ddelweddau staff yn chwarterol trwy raglen archwilio delwedd gadarn sydd wedi'i hen sefydlu. Yn ogystal â hyn, bydd BPAS hefyd yn cynnal hapwiriadau pan fo angen ar ddelweddau uwchsain USD, gan sicrhau bod delweddau'n cael eu harchwilio'n drylwyr o ran ansawdd.</p>		<p>yn cael ei rhoi ar waith ar 14/03/2022</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod delweddau sonograffeg yn cael eu marcio i ddynodi pa ochr i'r claf yr oedd yn perthyn iddi.</p>				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod delweddau sonograffeg yn cael eu harchwilio i sicrhau ansawdd.</p>				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Er y bydd USD yn cynnal mwyafrif helaeth y sganiau Uwchsain ar gyfer cleientiaid BPAS, bydd rhywfaint o sganio uwchsain (fel sganiau gwirio ôl-driniaeth) yn aros yn fewnol (ac yn cael eu cyflawni gan ymarferwyr BPAS). Er mwyn gwella gwasanaeth mewnol BPAS a sicrhau bod cleientiaid sy'n cael eu sgan uwchsain yn BPAS hefyd yn cael yr un gwasanaeth uwchsain o ansawdd uchel â'r rhai sy'n cael eu sganio yn USD, ail agwedd y model hybrid sydd eisoes ar y gweill yw cryfhau'r system gwasanaeth uwchsain fewnol.</p> <p>I gyflawni hyn, bydd BPAS yn cyflogi dau aelod arall o staff sy'n meddu ar dystysgrif ôl-raddedig o leiaf mewn Uwchsain Meddygol (bydd hyn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant uwchsain un i un i ymarferwyr BPAS er mwyn llenwi unrhyw fylchau presennol mewn gwybodaeth a sicrhau bod yr holl agweddau a argymhellir yn arolygiad AGIC yn cael eu cyflwyno mewn modd</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>amserol). Mae'r disgrifiad swydd ar gyfer sonograffwyr ychwanegol yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd gan M Grant a bydd y swydd yn cael ei hysbysebu cyn gynted â phosibl.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae BPAS yn bwriadu cyflwyno System Gyfathrebu Archif Lluniau (PACS) a fydd yn sicrhau storfa ddigonol ar gyfer delweddau uwchsain, gan alluogi'r sonograffydd arweiniol i archwilio delweddau yn rheolaidd. Mae pob un o'r agweddau uchod ar y model hybrid nid yn unig yn mynd i'r afael â'r argymhellion, ond hefyd yn sicrhau gwasanaeth uwchsain mwy diogel yn BPAS.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod posteri'n cael eu harddangos yn y clinig i hysbysu cleifion o'u hawl i gael hebryngwr.</p>		<p>Mae poster bellach yn cael ei arddangos ym mhob ardal cleient.</p>	<p>Rheolwr Triniaeth Uned</p>	<p>Cwblhawyd y cam gweithredu hwn ar 28/02/2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cynnig o hebryngwr, a phenderfyniad y claf i dderbyn neu wrthod y cynnig, bob amser yn cael eu cofnodi mewn nodiadau gofal.</p>		<p>Mae BPAS yn cynnig hebryngwr i bob cleient yn bennaf trwy hysbysiadau a arddangosir mewn ardaloedd allweddol o glinigau fel mannau aros, ystafelloedd ymgynghori ac archwilio.</p> <p>Os oes unrhyw amheuaeth o gwbl ynglŷn â dealltwriaeth cleient o'r hysbysiadau neu eu hyder i ofyn am hebryngwr pan hoffent gael un (er enghraifft, nid Saesneg yw eu hiaith gyntaf, oedran ifanc, ystyriaethau diwylliannol) dylid gwneud cynnig llafar clir.</p> <p>Efallai na fydd rhai cleientiaid yn gyfarwydd â'r term 'hebryngwr' ac efallai y bydd angen rhoi esboniad llawnach.</p> <p>Nid oes gan BPAS unrhyw hyfforddiant hebryngwr sy'n ofynnol ar gyfer staff anghlinigol yn benodol. Gellir cyflwyno hyn a chael tystiolaeth ohono trwy MAX Learning.</p> <p>Bydd polisi hebryngwyr BPAS yn cael ei adolygu ar frys fel ei fod yn nodi bod yn rhaid dogfennu trafodaethau sy'n</p>	<p>Prif Nyrs/Bydwraig</p>	<p>Cyflwyniad graddol</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ymwneud â chynnig hebryngwr a'i bod yn glir pwy all weithredu fel hebryngwr.</p> <p>Bydd cam gweithredu Sefyllfa, Cefndir, Aseiad, Argymhelliad yn cael ei anfon i bob uned i sicrhau bod poster'i'n cael eu harddangos yn glir yn yr unedau a'r ystafelloedd ymgynghori a chanllawiau ar sut i'w harchebu os nad ydynt ar waith.</p> <p>Gwneir cais am newidiadau i CAS2 (Cofnod Claf Electronig BPAS) i alluogi'r dogfennau ein bod wedi cynnig hebryngwr a phan fydd un yn cael ei dderbyn.</p> <p>Prif Nyrs/Bydwraig i ofyn am newidiadau i lythyr cadarnhau apwyntiad y cleient er mwyn gwneud cleientiaid yn ymwybodol y bydd hebryngwr ar gael.</p> <p>Metronau Ansawdd BPAS i ychwanegu gwiriadau ychwanegol yn ymwneud â'r polisi a gweithdrefnau hebryngwr at eu templedi ymweliadau sicrhau ansawdd.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): LAURA MCALLISTER

Swydd: RHEOLWR UNED TRINIAETH

Dyddiad: 17/03/2022